



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad yn dilyn monitro

Lefel y gweithgarwch dilynol: Mesurau Arbennig

**Ysgol Awel y Mynydd
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ**

Dyddiad yr ymweliad: Gorffennaf 2022

gan

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a
Hyfforddiant yng Nghymru**

Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Awel Y Mynydd wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd mwyaf diweddar.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

A1. Sefydlu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth gadarn ac egniol sydd yn sicrhau cefnogaeth ac ymddiriedaeth aelodau o gymuned yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys dirprwy ac uwch dîm rheoli cefnogol sy'n rhoi ffocws priodol ar godi safonau. Fel tîm, maent wedi dangos gwydnwch wrth ddelio â'r heriau sylweddol a ddaw yn sgil y pandemig COVID-19, ac wrth wella deilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr wedi gwneud addasiadau synhwyrol i strwythurau arwain a rheoli'r ysgol. Mae cyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli wedi'u diffinio'n glir, er mwyn effeithio'n gadarnhaol ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Erbyn hyn, mae'r arweinwyr yn gweithredu'n fwy strategol i wella'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth ddatblygu heriau mewn ardaloedd dysgu a chwarae yn nosbarthiadau is law yn yr ysgol sydd erbyn hyn yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae'r ysgol wedi parhau i weithio ar y cyd â swyddogion o'r consortiwm rhanbarthol i ddatblygu medrau arwain arweinwyr canol a'u cyfraniad i'r broses hunanwerthuso. O ganlyniad, mae arweinwyr canol yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys cydlynwyr llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â thîm o athrawon sy'n arwain ar ddatblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) drwy'r ysgol gyfan. Maent yn cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol, er enghraifft trwy ddarparu arweiniad clir i weddill y staff ynglŷn â meysydd penodol o'r fframwaith cymhwysedd digidol. Mae hyn yn arwain at ddatblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cyfrannu'n bwrpasol i'r broses hunanwerthuso, gan ddarparu adborth defnyddiol i'w cydweithwyr.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r pennaeth a'r staff, ac maent yn cyfrannu'n frwdfrydig at arfarnu gwaith yr ysgol wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda, ac mae ychydig wedi ailafael yn eu hymweliadau â'r ysgol sydd wedi cael eu cyfyngu oherwydd COVID-19. Er enghraifft, mae un aelod o'r corff wedi arsylwi darpariaeth mathemateg trwy'r ysgol er mwyn dod yn fwy cyfarwydd â dulliau'r ysgol o osod lefel her wahanol i ddisgyblion. Mae hyn wedi cryfhau dealltwriaeth y llywodraethwyr o ddarpariaeth a safonau disgyblion. Mae'r corff llywodraethol wedi cael ei gryfhau ymhellach drwy ychwanegu aelodau newydd sydd ag arbenigeddau mewn meysydd fel rheolaeth gyllidol ac anghenion dysgu ychwanegol.

A2. Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

Mae arweinwyr a staff wedi parhau i weithio'n frwdfrydig ar y cynllun gweithredu ôl-aroelygiad. Maent wedi pennu camau gweithredu defnyddiol, ac wedi gweithredu'n bwrpasol er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'n gynllun 'byw' sydd yn derbyn sylw cyson gan yr uwch dîm rheoli a'r athrawon, ac yn plethu'n briodol gyda gweithgareddau monitro'r tymor. Mae arweinwyr yn darparu gwybodaeth perthnasol i lywodraethwyr am weithgareddau hunanwerthuso'r tymor a'r prif ganfyddiadau. Yn ogystal, maent yn mynd i'r afael yn addas â materion tanberfformiad staff, lle bo'n briodol.

Mae athrawon ac arweinwyr yn cynnal ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso yn rheolaidd, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau plant. Gyda chefnogaeth y consortiwm rhanbarthol, mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o ansawdd y dysgu ac addysgu. Drwy graffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu, maent yn datblygu trosolwg trwyadl o'r blaenoriaethau presennol. Er enghraifft, maent yn adnabod i ba raddau mae dysgwyr yn ymateb i adborth gan athrawon. Ar y cyfan, mae'r adroddiadau craffu ar lyfrau a chofnodion teithiau dysgu yn cynnig sylwadau buddiol am ansawdd y ddarpariaeth ac yn adrodd yn fwyfwy ar ddysgu disgyblion. Maent yn pennu camau gweithredu addas ar gyfer gwella ac erbyn hyn maent yn nodi cyfrifoldebau a threfniadau adolygu priodol. O ganlyniad, ar y cyfan, mae'r gweithgareddau monitro yn cael effaith gadarnaol ar wella'r ddarpariaeth a medrau disgyblion.

A3. Sefydlu a gwneud defnydd effeithiol o brosesau olrhain cynnydd disgyblion

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau olrhain cynnydd cadarn sy'n canolbwyntio'n gywir ar wahanol agweddau o ddatblygiad disgyblion. Mae bron bob un o'r athrawon yn defnyddio'r gweithdrefnau yn gyson ac yn defnyddio'r asesiadau yn briodol er mwyn cynllunio camau nesaf y dysgu.

Mae athrawon yn defnyddio dull ar-lein yn briodol i olrhain cynnydd disgyblion gyda chywirdeb cynyddol. Maent yn defnyddio asesiadau personol ar-lein i gydnabod y camau nesaf mewn perthynas â datblygu medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion. Gwneir defnydd buddiol o wybodaeth sy'n deillio o asesiadau er mwyn cynllunio ymyraethau priodol ar gyfer disgyblion unigol, lle bo angen. Er enghraifft, mae arweinwyr yn trefnu sesiynau llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol sydd, yn ei dro, yn eu galluogi i ddatblygu eu medrau'n briodol. Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio a chyfathrebu'n gyson â'i gilydd er mwyn adnabod cynnydd disgyblion ac effaith ymyraethau.

Mae arweinwyr wedi datblygu'r system olrhain ddefnyddiol i ystyried y cynnydd a wnaed gan grwpiau o ddisgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff ymwybyddiaeth gynyddol o'r grwpiau hyn. Defnyddir asesiadau athrawon yn addas er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei haddasu'n gynyddol er mwyn diwallu anghenion y disgyblion. Mae staff yn parhau i gofnodi anghenion lles disgyblion, ac o ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau mynediad amserol i gefnogaeth addas.

A4. Sichrau bod athrawon yn cynllunio'n fwrriadus i ddatblygu cyfleoedd heriol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y meysydd dysgu

Mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd ar draws yr ysgol. Maent yn cysylltu tasgau ysgrifennu estynedig rheolaidd â thema'r dosbarth, gan annog disgyblion i ddatblygu medrau ysgrifennu'n gadarn mewn cyd-destunau gwahanol. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am nodweddion dyddiaduron ac yna'n ysgrifennu dyddiadur i ddisgrifio profiad person ar fwrdd ar y Titanic. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau buddiol i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion gyda chefnogaeth gan dîm ymgynghorol yr awdurdod lleol. Yn yr esiamplau cryfaf, yn enwedig yn nosbarthiadau is yr ysgol, mae'r gweithgareddau yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau Cymraeg y disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio gwersi mathemateg sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol yn gadarn. Mae eu cynllunio yn nodi cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion drosglwyddo'r medrau hyn i feysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymarfer a chymhwyso eu medrau rhifedd yn annibynnol drwy mesur a chofnodi tymheredd gwahanol ardaloedd yn yr ysgol. Mewn ychydig iawn o ddsbarthiadau, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd mewn meysydd eraill. Mae athrawon yn cynllunio gwersi sy'n rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddewis y lefel o her sy'n gysylltiedig â chwblhau'r dasg. Maent yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion datblygu a chymhwyso ystod gynyddol o fedrau digidol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio taenlenni yn effeithiol trwy fewnbynnu data am eu hoff weithgareddau yn dilyn ymweliad i'r warchodfa RSPB ac yn cyflwyno'r data mewn amryw siartiau. Mae'r athrawon yn ymateb yn gynyddol gyson i waith disgyblion ar draws yr ysgol ac mae'r adborth a roddir iddynt yn eu galluogi i adeiladu ar eu medrau a gwella eu gwaith. At ei gilydd, mae'r cynnydd a wnaed islaw yn yr ysgol i ddarparu cyfleoedd heriol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol wedi bod yn gryf iawn.

A5. Codi safonau a gwella medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion

Drwy'r ysgol gyfan, mae disgyblion yn datblygu medrau llythrennedd yn effeithiol yn ystod gwersi iaith. Er enghraifft, islaw'r ysgol, maent yn ysgrifennu am gymeriadau cyfarwydd gyda lefel gynyddol o gywirdeb wrth ddilyn cynllun penodol. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cymhwyso eu medrau ysgrifennu'n briodol wrth weithio'n annibynnol yn y ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu ffeithiau am bobl enwog a chastell Conwy. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn ysgrifennu darnau diddorol mewn amryw ffurfiau, gan ddwyn i gof eu dysgu diweddar i'w cynorthwyo. Er enghraifft, maent yn trafod nodweddion pamffled, ac yna'n creu pamffled i ddenu twristiaid i ymweld â Gogledd Cymru. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu hyder wrth ymateb i gwestiynau amdanynt eu hunain gyda chywirdeb cynyddol gan ddefnyddio patrymau brawddegau cyfarwydd yn Gymraeg. Er hyn, nid yw medrau siarad Cymraeg disgyblion ym mlynnyddoedd uwch yr ysgol wedi eu datblygu'n ddigon cyson.

Ar y cyfan, drwy'r ysgol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi mathemateg. O ganlyniad, maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn gynyddol hyderus wrth weithio mewn meysydd dysgu eraill. Er enghraifft, yn nosbarthiadau is yr ysgol, mae disgyblion yn torri siapiau ac yn eu mesur yn gywir i'r hanner centimedr

agosaf. Ym mlynnyddoedd uwch yr ysgol, maent yn cyflwyno gwybodaeth am boblogaeth y trefi a phentrefi mae plant y dosbarth yn byw ynddynt mewn tablau a graffiau.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau TGCh yn llwyddiannus i gyflwyno gwybodaeth, er enghraifft wrth greu sleidiau am wahanol gynefinoedd neu drwy ddefnyddio technoleg sgrin werdd i adrodd straeon Cymraeg. Maent yn datblygu medrau trin data yn effeithiol trwy greu tablau a graffiau syml islaw'r ysgol a chan ddefnyddio fformiwlaâu yn gynyddol hyderus ar frig yr ysgol. Mae llawer yn creu eu gwefannau eu hunain i ddangos yr hyn y maent wedi ei ddysgu'n ddiweddar, gan fewnbynnu lluniau priodol.

A6. Sicrhau bod disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol i'w dysgu eu hunain ac at wneud penderfyniadau ehangach ar waith yr ysgol

Ar y cyfan, mae disgyblion yn cymryd rhan fwy gweithredol yn eu dysgu eu hunain ac yn dod yn ddysgwyr mwy annibynnol. Bellach, mae cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion gyfrannu syniadau i gynlluniau themâu'r tymor. Islaw yn yr ysgol, mae rhieni a gofawyr yn cael cyfleoedd buddiol i rannu diddordebau eu plant gyda'r ysgol a chynnig syniadau at waith y tymor. Mae disgyblion hŷn yn cynnig syniadau addas am beth yr hoffent ei ddysgu o fewn thema'r tymor trwy drafodaethau dosbarth, er enghraifft wrth ddewis ymchwilio i foroedd y byd.

Islaw yn yr ysgol, mae disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu trwy ymchwilio'n annibynnol. Er enghraifft, drwy eu cyfnodau 'Cwestiwn Mawr', mae disgyblion yn cynnal ymchwiliadau diddorol i weld os mai'r plentyn talaf yw'r cyflymaf. Maent yn cymhwyso eu medrau yn llwyddiannus trwy ymgymryd â heriau pwrpasol gyda lefelau her priodol yn annibynnol. Erbyn hyn, mae gallu'r disgyblion ieuangaf hyn i weithio'n annibynnol yn elfen gref o waith yr ysgol. Ym mlynnyddoedd uwch yr ysgol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddewis ymchwilio i feysydd o ddiddordeb personol a dewis sut i gyflwyno eu gwaith o fewn cyfnod 'awr athrylith'. Drwy hyn, maent yn cael mwy o gyfleoedd i weithio'n annibynnol, er enghraifft trwy ymchwilio i ddarganfod maint y Titanic cyn creu model ohono. Mae disgyblion yn trafod eu gwaith gyda'u cyfoedion yn synhwyrol o fewn 'parau parablu' gan gynnig adborth adeiladol i'w gilydd. Mewn llawer o ddisbarthiadau, mae disgyblion yn cyfrannu syniadau tuag at sut i lwyddo yn eu gwaith ac yn dewis y lefel o her sy'n fwyaf perthnasol iddynt. Erbyn hyn, mae'r cyfleoedd hyn yn gynyddol gyson ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol grwpiau llais dysgwyr gweithredol fel y cyngor ysgol. Erbyn hyn, mae'r grwpiau hyn yn dylanwadu'n gynyddol ar waith a chyfeiriad strategol yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'n gwerthuso i ba raddau mae eu cyfoedion yn llwyddo i ddatblygu medrau annibynnol trwy ddefnydd o'r 'awr athrylith', gan ystyried adborth holiaduron a chynnig targedau i wella'r ddarpariaeth i'r staff a llywodraethwyr. Mae aelodau'r cyngor eco yn casglu sbwriel ar dir yr ysgol a mae aelodau'r Criw Cymraeg wedi trefnu 'Disgo Dawel' i godi arian tra'n hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg. Mae'r Dewiniaid Digidol yn cynorthwyo'r cydlynwyr TGCh i hyrwyddo agweddau penodol o'r fframwaith digidol ym mhob dosbarth.

A7. Cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru wrth gynllunio gwariant grantiau penodol

Mae gweinyddwr cyllid ysgol a rheolwr busnes yn cefnogi'r arweinwyr er mwyn sicrhau bod y dyraniad cyllid yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ac yn unol â chanllawiau grantiau penodol. Mae'r arweinwyr yn cynllunio defnydd o wariant grantiau yn synhwyrol. Er enghraifft, maent wedi sicrhau bod cynllun gwariant y Grant Datblygu Disgyblion a'r Rhaglen Dysgu Carlam yn nodi'r ddarpariaeth sydd ei hangen er mwyn codi deilliannau ar gyfer disgyblion. Lle bo'n briodol, maent yn sicrhau bod y gwariant hwn hefyd yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun gwella'r ysgol ac maent yn monitro effaith y gwariant yn rheolaidd. Mae materion cyllidol yn cael eu trafod yn fanwl gan is-banel cyllid y llywodraethwyr, sydd yn adrodd yn ôl i'r corff llawn. Gyda chefnogaeth yr awdurdod leol a'r consortiwm rhanbarthol, maent yn gwirio bod y gyllideb graidd a grantiau penodol yn cael eu gwario'n briodol.

Mae'r ysgol yn arfarnu effaith y defnydd o'r grantiau ar wella safonau a lles disgyblion yn gywir. Er enghraifft, mae arweinwyr yn gwneud defnydd o'r wybodaeth sydd ganddynt am grwpiau o ddisgyblion er mwyn trefnu cymorth penodol iddynt. Maent wedi datblygu gweithdrefnau olrhain addas ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion i fonitro cynnydd ac yn defnyddio'r wybodaeth i ddyrannu darpariaeth briodol ar gyfer dysgwyr bregus ac i lywio'r cynllunio. Maent yn gwneud defnydd addas o'r holl wybodaeth hon i werthuso defnydd o'r grantiau er mwyn adnabod pa mor effeithiol oedd y gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer disgyblion.

Ⓜ **Hawlfraint y Goron 2022:** Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.